## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042 (CYLCHFAN MAMHEILAD, TORFAEN, I GYFNEWIDFA HARDWICK, SIR FYNWY) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Mamheilad, Torfaen, a Chyfnewidfa Hardwick, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4042 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn hefyd;

ii) gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith) rhag goddiweddyd ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn;

iii) gosod terfyn cyflymder o 40mya a 10mya ar y darnau o gefnffordd yr A4042 a ddisgrifir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Hysbysiad hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 26 Ionawr 2026. Disgwylir i'r cyfyngiadau a'r gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, fod yn weithredol yn ysbeidiol o 19:00 o'r gloch ar 26 Ionawr 2026 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Sicrheir mynediad ar gyfer traffig lleol a chodir arwyddion ynghylch hynny ar hyd yr A4042 hyd at y pwyntiau cau. Bydd traffig ar ffyrdd ymyl a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yr effeithir arnynt wrth gau'r gefnffordd yn cael ei ddargyfeirio neu ei reoli drwy'r gwaith yn unol â gofynion yr Awdurdod Lleol perthnasol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A4042 TRUNK ROAD (MAMHILAD ROUNDABOUT, TORFAEN, TO HARDWICK INTERCHANGE, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road between Mamhilad Roundabout, Torfaen, and Hardwick Interchange, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i) prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from proceeding on the length of the A4042 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. Alternative routes, which will be signed accordingly, are also described in Schedule 1 to this Notice;

ii) prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from overtaking on the lengths of the trunk road described in Schedule 2 to this Notice;

iii) impose a 40mph and 10mph speed limit on the lengths of the A4042 trunk road described in Schedules 3 and 4 to this Notice.

The Order will come into force on 26 January 2026. The temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to operate intermittently from 19:00 hours on 26 January 2026 for a maximum period of 18 months. Access for local traffic will be maintained and signed along the A4042 up to the points of closure. Traffic on the Local Authority maintained side roads affected by the closures will be diverted or managed through the works in accordance with the relevant Local Authority's requirements.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Mamheilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ, hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick, y Fenni, NP7 9BP.

2. Y llwybr arall ar gyfer cerbydau nad ydynt yn gerbydau traffordd sy'n teithio tua'r gogledd o'r de i Gylchfan Mamheilad yw ar hyd yr A4042 tua'r de i Gylchfan Grove Park, gan barhau i Gyffordd Old Town Dock, yna tua'r dwyrain ar hyd yr A48 Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol Casnewydd i Gyfnewidfa Coldra, mynd tua'r gogledd ar hyd yr A449 i Gyfnewidfa Rhaglan ac yna tua'r gorllewin ar yr A40 i Gyfnewidfa Hardwick. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n dymuno teithio tua'r de ar hyd yr A4042 o'r gogledd o'r darn o'r gefnffordd sydd wedi ei gau.

   Bydd arwyddion yn cyfarwyddo traffig trwodd sy'n dymuno defnyddio'r A4042 i ymuno â'r llwybr arall mewn lleoliadau addas. Sicrheir mynediad ar gyfer traffig lleol a chodir arwyddion ynghylch hynny ar hyd yr A4042 hyd at y pwyntiau cau. Bydd traffig ar ffyrdd ymyl a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yr effeithir arnynt wrth gau'r gefnffordd yn cael ei ddargyfeirio neu ei reoli drwy'r gwaith yn unol â gofynion yr Awdurdod Lleol perthnasol.

3. Y llwybr arall ar gyfer cerbydau traffordd sy'n teithio tua'r gogledd yw dilyn y llwybr uchod i Gylchfan Grove Park, gan ymuno â'r M4 tua'r dwyrain i gyffordd 24 (Coldra) ac yna dilyn gweddill y llwybr a ddisgrifir uchod. I'r gwrthwyneb ar gyfer defnyddwyr y drafordd sy'n teithio tua'r de.

## SCHEDULE 1
## Temporary Prohibition of Vehicles and Alternative Routes

1. The length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway at Mamhilad Roundabout, Pontypool, NP4 0HZ, to its junction with the circulatory carriageway of Hardwick Roundabout, Abergavenny, NP7 9BP.

2. The alternative route for non-motorway northbound vehicles from the south of Mamhilad Roundabout is via the A4042 southbound to Grove Park Roundabout, continue to Old Town Dock Junction, then eastbound on A48 Newport Southern Distributor Road to Coldra Interchange, proceed northbound on the A449 to Raglan Interchange and then westbound on the A40 to Hardwick Interchange. Vice Versa for traffic wishing to travel south along the A4042 from north of the closure.

   Through traffic wishing to use the A4042 will be advised by signage to join the alternative route at suitable locations. Access for local traffic will be maintained and signed along the A4042 up to the points of closure. Traffic on the Local Authority maintained side roads affected by the closures will be diverted or managed through the works in accordance with the relevant Local Authority's requirements.

3. Northbound motorway vehicles should follow the above route to Grove Park Roundabout, joining the M4 eastbound to junction 24 (Coldra) and then follow the remainder of the route described above. Vice versa for southbound motorway users.

## ATODLEN 2
## Gwahardd Goddiweddyd Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Mamheilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick, y Fenni, NP7 9BP.

## SCHEDULE 2
## Temporary Prohibition of Overtaking

The length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Mamhilad Roundabout, Pontypool, NP4 0HZ to its junction with the circulatory carriageway of Hardwick Roundabout, Abergavenny, NP7 9BP.

## ATODLEN 3
## Terfyn Cyflymder 40mya Dros Dro

1. Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol

## SCHEDULE 3
## Temporary 40mph Speed Limit

1. The length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the circulatory

wrth Gylchfan Mamheilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ, hyd at bwynt 15 o fetrau i'r de o linell ganol ei chyffordd â Lôn Croes-y-pant, Pont-y-pŵl.

2. Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â Lôn Parc-y-brain hyd at bwynt a leolir 38 o fetrau i'r de o linell ganol ei chyffordd â Hen Ffordd y Fenni.

3. O bwynt 97 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â Lôn Llwyn Celyn, hyd at bwynt 106 o fetrau i'r de o'i chyffordd â ffordd y B4269, o'r enw Lôn y Sipsi.

4. O bwynt 400 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â ffordd y B4269, o'r enw Lôn y Sipsi, hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick, y Fenni, NP7 9BP.

**ATODLEN 4**
**Terfyn Cyflymder 10mya Dros Dro**

Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Mamheilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick, y Fenni, NP7 9BP.

carriageway at Mamhilad Roundabout, Pontypool, NP4 0HZ, to a point 15 metres south of the centreline of its junction with Croes-Y-Pant Lane, Pontypool.

2. The length of the A4042 trunk road that extends from a point 219 metres north of the centerline of its junction with Park Y Brain Lane to a point located 38 metres south of the centerline of its junction with Old Abergavenny Road.

3. From a point 97 metres north of the centerline of its junction with Llwyn Celyn Land, to a point 106 metres south of its junction with the B4269 road, known as Gypsy Lane.

4. From a point 400 metres north of its junction with the B4269 road, known as Gypsy Lane, to its junction with the circulatory carriageway of Hardwick Roundabout, Abergavenny, NP7 9BP.

**SCHEDULE 4**
**Temporary 10mph Speed Limit**

The length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Mamhilad Roundabout, Pontypool, NP4 0HZ to its junction with the circulatory carriageway of Hardwick Roundabout, Abergavenny, NP7 9BP.